

Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Medi 29^{ain} 2017

Presennol Cyng Dewi W Jones Cyng Lowri James, a'r Cyng Cynrig E Hughes
Clerc Elwyn Jones

Ymddiheuriadau Cyng Jean Pierce, Cyng Dafydd Jones Morris, Cyng Bernard Jones

Cadeirwyd gan Cyng Lowri James

Datganwyd ein cydymdeimlad a'r Cyng Bernard Jones yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer

Derbyn cofnodion cyfarfod Awst 30ain

Cynnigwyd eu derbyn fel cofnod cywir gan y Cyng Dewi Jones a'r Cyng Cynrig E Hughes yn eilio

Materion yn codi - Dim

Ymateb BDO 2016 -17 Dim ymateb wedi ein cyrraedd ers ein cyfarfod olaf

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd mantolen ariannol yn dangos yr incwm a gwariant am y mis aeth heibio.
'Roedd yn cyd fynd a'r datganiad banc o'n sefyllfa ariannol ar ddiwedd busnes 26/09/17
hefo £27,823.29 yn y cyfrif

Dosbarthwyd amcangyfriflen yn amcannu fod £11,534.48 o hwn ar gyfer arian refeniw
sy'n gadael £16,288.81 arian cyfalaf

Yn ychwanegol amcangrifir fod oddeutu £11,000 + addaliad TAW o flwyddyn 2015 -16
a 2016 - 17

Ceisiadau am nawdd (s. 137)

- Llais Ogwan Cais am rodd wedi ei dderbyn ond y fantolen ariannol o 2015-16
Argymhell i'r Clerc lythyru i gadw'r cais ar ffeil ag iddynt anfon mantolen 2016 – 17 pan ddaw honno i'w dwylo
- Trefniadau cyflwyno i Clwb Peldroed Penrhos –
Cytunwyd y byddai Cyng C Hughes cyng L James yn cyflwyno a chael llun o'r cyflwyniad i'w rhoi ar y wefan

Ymateb o'r Is Bwyllgor Asedau

- Cysgodfan Bws Rhydygroes **Argymhell archebu un gan D E Williams**
- Cysgodfan yn Goleufryn **Clerc i gysylltu a Cyng Gwynedd am leoliad addas**
- Safle Bws Cae Garnedd **Clerc i gysylltu a Cyng Gwynedd am leoliad addas**
- Fens Septic Tanc Glasinfryn **Clerc i gael pris o'r newydd heb gynnwys y giat**
- Trefnu agor ffos ar Lon Llanerch **Tirfeddianwyr ddylai ymdrin a'r broblem yma**
- Wal gwaelod Coed y Maes **Clerc i gysylltu a Cyng Gwynedd am esboniad o gyfrifoldeb pwy ydio**
- Dod i gytundeb parthed Llwybr rhwng Goleufryn a Stad Y Rhos **Clerc eto i gysylltu a Cyng Gwynedd am esboniad o gyfrifoldeb pwy ydio**

Taliadau i'w ystyried

- | | | |
|----------------------------------|------|-----------------------|
| • Torri gwair y fynwent Mis Medi | Talu | £610.00 |
| • Cyflog y Clerc Medi | Talu | £362.90 |
| • HMRC Treth Incwm | Talu | £90.80 |
| • Llywodraeth Cymru Rhent | Talu | £1616.98 |
| • Cyngor Gwynedd NDR a Gwastraff | Talu | pan ddaw yr anfonebau |

- Cyngor Gwynedd costau etholiad Mai 2017 Talu £250.00
- Opus Energy - Trydan Swyddfa Talu £20.88 **Daeth y cyfarfod i ben am 8.45**